**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru (FfGBMC)**
Rhaglen Waith - Ebrill 2013 - Mawrth 2014

**Cylch Gorchwyl**
Bydd gwaith y grŵp hwn yn cael ei wneud yn unol â'r Cylch Gorchwyl a gyflwynwyd i'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau (CG v3, Ebrill 2010).

**Rhaglen Waith**

1. Darparu cyngor arbenigol ar famaliaid i Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau (GARh) Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru trwy ddiweddariadau o gyfarfodydd, papurau a gynhyrchir a chyfarfodydd ag aelodau GARh neu'r Grŵp Ecosystemau (GE) fel y bo angen.

2. Siarad ag Arweinwyr Gweithredu i weld a oes prosiectau y mae angen eu hamlygu a'u datblygu. Ystyried pa brosiectau sydd ar waith ar gyfer rhywogaethau.

3. Darparu fforwm ar gyfer deialog rhwng mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n ymwneud â chyflwyno gweithredu cadwraeth ar gyfer rhywogaethau mamalaidd CGB Cymru ar ffurf 2 gyfarfod a dosbarthu cofnodion a phapurau

4. Cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau a Strategaethau Cadwraeth Rhywogaethau fel yr amlinellwyd yn y ddogfen "Crynodeb o Famaliaid CGB Cymru", Chwefror 2010, a'u lledaenu i bartneriaethau CGBLl.

5. Ystyried mecanwaith ar gyfer adolygu'r casgliad o Gynlluniau a Strategaethau Gweithredu a'u diweddaru fel y bo angen.

6. Gofyn am adroddiadau gan GARh ac GE ar Gamau Gweithredu Mamaliaid CGB a sicrhau bod adrodd am Gamau Gweithredu CGB ar BARS yn cael ei gyflawni gan Arweinwyr Rhywogaethau a / neu GE.

7. Ystyried sut i annog cyflwyno data mamaliaid i systemau cofnodi Cymru a'r DU (trwy LRC a'r Porth NBN).

8. Parhau i gyfnewid gwybodaeth am gynnydd gyda gwaith cadwraeth a materion sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwahanol o Gymru a'r DU (gan gynnwys cysylltedd cynefinoedd a phrosiectau ar raddfa tirweddau).

9. Cynnal cysylltiadau â CGBLl a grwpiau CGB y DU a grwpiau perthnasol eraill.

10. Cynhyrchu Bwletin Cynnydd Blynyddol ar waith a gyflawnir ar y rhaglen hon.